CYMRU WLEDIG LPIP RURAL WALES

**Briff Polisi 1 – Gorffennaf 2025**

# Deall twf o safbwynt gwledig

## CRYNODEB

Nod y gwaith ymchwil hwn oedd adnabod sut y mae'r sawl sy'n byw ac yn gweithio mewn trefi gwledig yng Nghymru yn canfod twf o ran busnes a datblygu cymunedol. Cafodd dwy astudiaeth achos eu defnyddio: sef Llanidloes (Powys) a Llangefni (Ynys Môn). Yn gyffredinol, roedd busnesau bach a chymunedau o'r farn bod twf yn golygu symud ymlaen neu wella. Roedd y canfyddiad hwnnw o dwf yn bodoli ochr yn ochr â chanfyddiad o risgiau'n ymwneud â dirywiad. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod twf yn ymdrech gymunedol yn hytrach nag yn rhywbeth y dylid ei ganlyn er mwyn sicrhau manteision i unigolion, ac roeddent yn ei gysylltu â ffyniant trefi. Prin iawn oedd y gefnogaeth i ddull gweithredu lle mae twf yn golygu cynyddu ac ehangu, er enghraifft cynyddu elw neu ehangu poblogaeth. Dim ond ychydig o lunwyr polisi oedd o'r farn mai dyna oedd ystyr twf. Roedd yna ffocws, yn hytrach, ar greu cymunedau ffyniannus, cydlynus a chydnerth ac ar gynaliadwyedd hirdymor, sy'n gweithio yn dda oddi mewn i fframwaith y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar y sail honno, felly, hoffem wneud yr argymhellion canlynol:

- Dylai strategaethau twf geisio creu cymunedau mewn ardaloedd gwledig
- Dylid buddsoddi yn yr economi sylfaenol ac mewn perchnogaeth gymunedol
- Dylai polisïau twf fod yn gynaliadwy a chydnabod dyheadau'n ymwneud â sefydlogrwydd a chynhaliaeth
- Dylai busnesau gwledig gael cymorth sydd wedi'i deilwra i'w dyheadau a'u hanghenion nhw

## CEFNDIR

| | |
|---|---|
| **Amcanion yr astudiaeth** | Nod yr astudiaeth oedd ymchwilio i sut y mae busnesau, pobl a llunwyr polisi sy'n weithgar mewn ardaloedd gwledig yn deall twf. |
| **Y cyd-destun o ran polisi** | Yn aml, mae syniadau traddodiadol ynghylch twf yn canolbwyntio ar rwystrau ac ar gymorth i alluogi busnesau i ehangu neu wneud cymaint o elw ag sy'n bosibl. Mae'r Bargeinion Twf presennol yng nghanolbarth a gogledd Cymru yn dilyn y traddodiad hwnnw'n rhannol wrth geisio cynyddu nifer y swyddi a denu buddsoddiad. Fodd bynnag, bydd busnesau bach weithiau'n gweithredu gyda nodau eraill mewn golwg, er enghraifft sicrhau ansawdd bywyd gwell, a bydd cynnydd cyson yn y boblogaeth yn cael ei ystyried yn aml yn rhywbeth annymunol gan drigolion ardaloedd gwledig, a allai fod yn dyheu am sefydlogrwydd yn hytrach nag am unrhyw ehangu. At hynny, mae Fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn pwysleisio llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol i bobl yng Nghymru. Mae hyn i gyd yn golygu bod ystyr twf mewn ardaloedd gwledig yn fater y mae angen rhoi sylw iddo ar frys. |
| **Y sylfaen dystiolaeth** | Cafodd y gwaith ymchwil ei gyflawni rhwng mis Mehefin 2024 a mis Ebrill 2025 gan ganolbwyntio ar ddwy dref farchnad yng Nghymru, sef Llanidloes ym Mhowys a Llangefni ar Ynys Môn. Cynhaliwyd dau grŵp ffocws – y naill gyda 12 o lunwyr ac ymarferwyr polisi a'r llall gyda 7 o drigolion a busnesau yn Llanidloes. Cafodd data ei gasglu wedyn drwy gyfweliadau lled-strwythuredig neu wrth i gyfranogwyr lenwi holiadur ysgrifenedig. Cynhaliwyd cyfanswm o 19 o gyfweliadau a llenwyd cyfanswm o 7 o holiaduron. Roedd 14 o'r cyfweliadau a 3 o'r holiaduron hynny o Lanidloes, ac roedd 5 o'r cyfweliadau a 4 o'r holiaduron o Langefni. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys 8 o fusnesau, 7 o lunwyr polisi, 9 o drigolion a 2 fenter gymunedol. Cafodd y data ei ddadansoddi'n thematig a chan ddefnyddio dulliau o ddadansoddi disgwrs ieithyddol. Cafodd y data empirig ei gyfuno ag adolygiadau o lenyddiaeth ynghylch datblygu gwledig, twf a gwerthuso mentrau'n ymwneud â thwf gwledig. |

| PRIF GANFYDDIADAU | |
|---|---|
| **Gweld twf fel proses o symud ymlaen yn hytrach na symud i fyny** | Bach iawn o gefnogaeth oedd ymhlith y cyfranogwyr i syniadau bod twf yn golygu datblygu cynyddol neu ddatblygu tuag i fyny. Yn hytrach, y ddealltwriaeth oedd bod a wnelo twf â gwella, sicrhau sefydlogrwydd a symud ymlaen. Yn aml, roedd hyd yn oed yr ychydig lunwyr polisi a oedd yn canolbwyntio ar ddangosyddion twf traddodiadol, megis cynnydd yn y boblogaeth ac mewn gwerth ychwanegol gros, yn nodi bod eu prif nodau'n ymwneud â lleihau tlodi a gwella ansawdd bywyd, cyn nodi bod hynny'n golygu cynnydd mewn gwerth ychwanegol gros. Mae hynny'n dangos nad yw'r dull hwnnw o fesur yn ymgorffori'n llawn y nodau a ddymunir.<br><br>Mae'n bwysig nodi bod syniadau ynghylch twf yn cydfodoli'n gyson â'r perygl o symud yn ôl neu o fod ar ei hôl hi. Dyma a ddywedodd busnes o Lanidloes:<br><br>*"Rwy'n credu'n awr bod twf yn golygu rhywbeth gwahanol i'r hyn y gallai fod wedi'i olygu hyd yn oed ddwy flynedd yn ôl. Rwy'n credu mai ystyr twf erbyn hyn yw gallu goroesi. Os nad ydych yn tyfu, rwy'n credu eich bod yn y pen draw yn symud yn ôl."* [Cyfieithiad]<br><br>Pe bai busnesau'n methu â symud ymlaen, byddai'n golygu eu bod yn gorfod rhoi'r gorau iddi. Pe bai cymunedau'n methu â gwella, byddai'n golygu eu bod nhw ar ei hôl hi ac yn colli'r ymdeimlad o fod yn gydlynus ac o berthyn. |
| **Y prif nod oedd cymuned ffyniannus a bywiog** | Y ddealltwriaeth yn aml oedd mai cymuned ffyniannus oedd prif nod twf, lle mae gwasanaethau a busnesau lleol yn cynnig lle a chyfle i bobl gwrdd ac ymgysylltu â'i gilydd, gan feithrin profiadau o berthyn. Yn aml, roedd busnesau'n gweld twf fel y gallu i gynnal eu gweithrediadau a pharhau i ddarparu gwasanaethau a nwyddau lleol, yn hytrach na'r gallu i gynyddu elw neu ehangu gweithrediadau. Meddai grŵp cymunedol yn Llangefni:<br><br>*"Mae dyfodol masnachol Llangefni yn dibynnu i ryw raddau ar awydd y gymdeithas i adfywio'r dref. Ni all y sector preifat achub y dref bob amser, a phrynu a rheoli adeiladau a'u gosod ar rent i fasnachwyr a phobl fusnes leol. Bydd angen gweledigaeth hirdymor arnom lle mae'r llywodraeth, y cyngor sir, y dref a'r gymuned ehangach yn barod i gydweithio â'i gilydd."* [Cyfieithiad]<br><br>O'r safbwynt hwn, mae twf yn deillio o wella drwy gydweithredu, cydweithio a chynnwys y gymuned yn ogystal â'r llywodraeth. Yn aml, roedd dibenion cymdeithasol yn bwysig iawn i'r busnesau a gafodd eu cyfweld. |
| **Mae creu cymuned ffyniannus yn gofyn am economi sylfaenol gref** | Gall y sector cyhoeddus chwarae rhan bwysig mewn economïau gwledig, wrth iddo gyflogi llawer o bobl a rhoi contractau cyflenwi i amryw fusnesau. Mae sicrhau perchnogaeth a/neu reolaeth gyhoeddus ar asedau o'r fath yn hollbwysig. Meddai lluniwr polisi yn Llangefni:<br><br>*"Gan fod gennym gymaint o fusnesau bach unigol, mae'n anodd i'r cyngor gael effaith oherwydd bod y tenantiaid neu'r lesddeiliaid mewn adeiladau sy'n eiddo i'r sector preifat (...) mae'n anodd, felly, i'r cyngor ymyrryd."* [Cyfieithiad]<br><br>Felly, mae'r diffyg perchnogaeth gymunedol yn effeithio'n negyddol ar yr hyn y gall y cyngor a'r gymuned ei wneud i gyflawni eu nodau cymunedol o ran twf. Mae angen economi sylfaenol gref sy'n sicrhau mynediad i wasanaethau a seilwaith, ac mae angen cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad i addysg, hyfforddiant a chartrefi priodol er mwyn iddynt allu aros mewn ardaloedd gwledig, a fydd ar yr un pryd yn creu cyfleoedd i fusnesau ddod o hyd i staff addas. |
| **Rhoi gwerth ar gynaliadwyedd cymdeithasol, ariannol ac amgylcheddol** | Mae angen i dwf fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor: o safbwynt amgylcheddol, cymdeithasol ac ariannol. Yn aml, mae ffrydiau cyllido ar gyfer mentrau twf yn rhai byrdymor ac yn seiliedig ar brosiectau, sy'n creu ansicrwydd. Fodd bynnag, cafodd cyfleoedd eu nodi lle gellid defnyddio adnoddau naturiol ardaloedd gwledig Cymru i gymryd rhan mewn cyfleoedd gwyrdd, ac elwa o gyfleoedd gwyrdd, i symud tuag at ynni adnewyddadwy, dulliau o reoli llifogydd, ac amaethyddiaeth gynaliadwy. |

| ARGYMHELLION | |
|---|---|
| O'r canfyddiadau uchod, mae ein hargymhellion arfaethedig ar gyfer Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cynnwys y canlynol: | |
| **Gweithio gyda thwf i greu cymunedau** | **Cydnabod blaenoriaethau cymunedau:** I gymunedau gwledig, mae a wnelo twf â gwella bywyd a bywiogrwydd cymunedol, cyfrannu i ansawdd bywyd gwell a chreu cyfleoedd i bobl leol ymgysylltu â'i gilydd ac i unigolion ffynnu. Mae angen i nodau polisi ddatblygu agendâu twf sy'n darparu'n benodol ar gyfer nodau o'r fath ac ar gyfer anghenion, gwerthoedd a dyheadau'r ardal leol.<br><br>**Osgoi cyffredinoli lle:** Wrth weithio gyda chymunedau, mae'n bwysig cydnabod bod yna amrywiaeth o fewn pob cymuned, sy'n gofyn am gamau gweithredol i gynnwys amryw safbwyntiau wrth ddatblygu agendâu twf. |
| **Rhoi gwerth ar berchnogaeth gymunedol ac ar yr economi sylfaenol** | **Cydnabod budd economaidd busnesau y mae cymunedau'n berchen arnynt:** Dylid cefnogi ac annog busnesau y mae ganddynt ddibenion sy'n ymwneud â chymunedau ac y mae cymunedau'n berchen arnynt, oherwydd maent yn cael effaith fawr ar gyflogaeth, ar ddarparu gwasanaethau ac ar gydlyniant ac ansawdd bywyd.<br><br>**Buddsoddi yn yr economi sylfaenol ac mewn perchnogaeth gymunedol:** Dylid buddsoddi'n strategol mewn seilwaith, gwasanaethau, tai a seilwaith ffisegol trefi er mwyn galluogi perchnogaeth gyhoeddus neu gymunedol ar asedau cyffredin yn ogystal â darparu mannau lle gall busnesau ddatblygu. |
| **Dulliau o ymdrin â thwf, sy'n seiliedig ar bolisïau cynaliadwy hirdymor** | **Mabwysiadu dull hirdymor o ymdrin â thwf a datblygu:** Mae cyllid byrdymor sy'n seiliedig ar brosiectau'n arwain at ansicrwydd ac anghysondeb. Dylid ymdrechu i greu strategaethau hirdymor gan y sector cyhoeddus, nad ydynt yn dibynnu ar sicrhau cyllid grant ychwanegol ac sy'n parchu nodau'n ymwneud â sefydlogrwydd.<br><br>**Defnyddio ystod eang o ddangosyddion twf:** Dylai mesuriadau ac amcanion twf ystyried canlyniadau llesiant heblaw rhai economaidd, a dylai gwerthusiadau ddefnyddio ystod eang o ddangosyddion sy'n cynnwys effeithiau ar iechyd, gwahaniaethu, allgáu, diogelwch, a chynaliadwyedd amgylcheddol. |
| **Cefnogi dyheadau busnesau gwledig** | **Cefnogi dyheadau busnesau sy'n ymwneud â ffyrdd o fyw a thwf cymunedol:** Mae angen cael cymorth sydd wedi'i deilwra yn benodol ar gyfer busnesau sy'n ceisio darparu gwasanaethau neu sicrhau ffordd benodol o fyw yn hytrach nag ehangu neu gynyddu elw.<br><br>**Dosbarthu cyfleoedd o ran addysg a hyfforddiant:** I alluogi pobl ifanc i aros mewn ardaloedd gwledig a galluogi gweithwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd, dylai addysg a hyfforddiant gael eu darparu mor agos ag sy'n bosibl i bobl, ac mae hynny'n cynnwys dulliau cyflwyno hyblyg sydd ar gael ledled Cymru. |

## GWYBODAETH AM Y PROSIECT

| | |
|---|---|
| **Ymchwilwyr** | Ellen Hjort (Prifysgol Aberystwyth), Sophie Bennett-Gillison (Prifysgol Aberystwyth), Thora Tenbrink (Prifysgol Bangor), Elen Bonner (Prifysgol Bangor), Eifiona Thomas-Lane (Prifysgol Bangor), Bronwen Raine (Antur Cymru) a Julie Jones (Prifysgol Aberystwyth) |
| **Mewn cydweithrediad ag** | Antur Cymru |
| **Darllen pellach** | Mae adroddiad llawn y prosiect ar gael i'w lawrlwytho o https://arsyllfa.cymru/cy/category/cymruwlediglpip/ |
| **I gael rhagor o wybodaeth** | **Cysylltwch ag:** Ellen Hjort, elh103@aber.ac.uk |

Cafodd y gwaith ymchwil yr adroddir yn ei gylch yn y Briff Polisi hwn ei gyflawni yn rhan o Bartneriaeth Leol Polisi ac Arloesi Cymru Wledig, a ariennir gan Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig (UKRI), sef corff Llywodraeth y DU ar gyfer cyllido ymchwil. Nod y Bartneriaeth yw cryfhau'r sylfaen dystiolaeth er mwyn llunio a gweithredu polisïau'n effeithiol ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru; archwilio atebion arloesol i heriau sy'n ymwneud â pholisi, a rhoi prawf ar yr atebion hynny; a grymuso cymunedau i ddefnyddio gwaith ymchwil i fynd i'r afael â phryderon lleol, gan weithio tuag at greu economi lesiant gynhwysol a chynaliadwy yn ardaloedd gwledig Cymru. Caiff Partneriaeth Leol Polisi ac Arloesi Cymru Wledig ei chydlynu gan Brifysgol Aberystwyth, a'i phartneriaid yw Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, y Sefydliad Ymchwil i Gefn Gwlad a Chymunedau ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Gyda'n Gilydd Dros Newid, Antur Cymru, Datblygiadau Egni Gwledig, Represent Us Rural, Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, a Sgema. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar https://arsyllfa.cymru/cy/category/cymruwlediglpip/ neu drwy gysylltu ag lpip@aber.ac.uk.

UK Research and Innovation | Prifysgol Aberystwyth University | Prifysgol Bangor University | antur cymru enterprise